



Cynghrair o sefydliadau sy'n ceisio diwygio'r gyfraith i rhoi'r un amddiffyniad i blant ag sydd gan oedolion rhag ymosodiad a hyrwyddo disgyblaeth gadarnhaol ddi-drais

An alliance of organisations seeking legal reform to give children the same protection under the law on assault as adults and promoting positive non-violent discipline

Tystiolaeth ysgrifenedig gan 'Sdim Curo Plant/Children are Unbeatable! Cymru i:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymgynghoriad Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol

Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

Cynnwys	Tudalen Rhif
Cyflwyniad	1
Adran 1: Pam mae'r Bil hwn yn offeryn addas ar gyfer diwygio	3
Adran 2: Rheidrwydd hawliau dynol	5
Adran 3: Amddiffyn plant	7
Adran 4: Cysylltiadau rhwng cosb gorfforol, cam-drin domestig a thrais arall	10
Adran 5: Gweithredu	12
Adran 6: Tystiolaeth o waith ymchwil	14
Diwedd glo ac argymhellion	17
Sylwebaeth	18
Anecs 1 – Rhestr o'r cyrff sydd wedi datgan eu bod yn cefnogi 'SCP!, ac sy'n gweithio ym maes Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	
Anecs 2 – Rhestr o'r Gwladwriaethau sydd wedi diddymu pob cosb gorfforol i blant	

Grŵp Strategaeth y Gynghrair / Alliance Strategy Group:

Achub y Plant/Save the Children, Barnardo's Cymru, Action for Children/Gweithredu dros blant, NSPCC Cymru, Plant yng Nghymru/Children in Wales, Cymorth i Fenywod Cymru/Welsh Women's Aid, Homestart UK, Rhwydwaith yr Eglwysi yn Erbyn Trais/Churches Network for Non-Violence

Tystiolaeth ysgrifenedig gan 'Sdim Curo Plant/CAU! Cymru i:

**Ymgynghoriad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar egwyddorion
cyffredinol y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
(Cymru)**



Cyflwyniad

Mae ein tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Cyfnod 1 y Pwyllgor yn canolbwyntio ar elfen allweddol sydd heb ei chynnwys yn y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (y Bil). Ni roddwyd sylw i un mesur hollbwysig ar gyfer gwrthweithio cam-drin domestig a thrais rhwng personau – gwahardd a dileu cosb gorfforol i blant. Heb gynnwys darpariaeth i ddileu amddiffyniad ‘cosb resymol’ sydd ar gael mewn achosion o ymosodiadau yn erbyn plant (Deddf Plant 2004, Adran 58) rydym yn credu mai llwyddiant cyfyngedig yn unig sy’n bosibl i’r Bil o ran cyflawni ei nodau. Nid yn unig mae hon yn elfen allweddol a gollwyd mewn unrhyw strategaeth i leihau trais a cham-drin domestig, ond hefyd mae Llywodraeth Cymru a’r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i ddiwygiad o’r fath ers dros ddegawd. Ar ben hynny, mae’r pwysau hawliau dynol rhyngwladol i gyflwyno’r mesur hwn yn sylweddol.

Ar sail ein darlleniad o’r Papur Gwyn a ragflaenodd y ddeddfwriaeth hon, yn ogystal â’r Memorandwm Esboniadol ar y Bil, ymddengys, er bod y ddeddfwriaeth yn cefnogi datblygu a chyflwyno gwasanaethau ansawdd uchel i ddelio gyda chanlyniadau Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ei bod yn methu ar sawl ystyr â sicrhau bod y galw am y cyfryw wasanaethau ac ymatebion yn gostwng yn gynyddol trwy fod yn barod i gymryd y cam pwysig hwn ar fater allweddol cydraddoldeb a hawliau dynol. Ymhellach, mae’n parhau i hyrwyddo darlun dryslyd, anghyflawn o wirionedd trais rhwng pobl ac anghydraddoldebau strwythurol sy’n effeithio ar blant yn gyffredinol, yn ogystal â merched a menywod.

Buasai cynnwys y cyfryw fesur yn gwbl gyson ag ‘agwedd pobl’ Llywodraeth Cymru at ddatblygu polisi a chyflwyno gwasanaeth, y cyfeiriwyd ati’n aml wrth ystyried y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) cyn iddo ddod i rym.

Er y sonnir am berygl niwed i blant sy’n *tystio* i drais rhwng oedolion, rydym yn eithriadol o siomedig bod Llywodraeth Cymru, i bob golwg, wedi cefnu ar ei diffiniad cynharach o gam-drin domestig fel rhywbeth y mae plant hefyd yn ei *brofi* eu hunain. Heb ymdrin â mater yr anghydraddoldeb sy’n bodoli ar hyn o bryd o ran amddiffyn rhag ymosodiad a mynd i wraidd y broblem, ni all Cymru obeithio mynd i’r afael yn effeithiol â cham-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol.

Cynghrair yw 'Sdim Curo Plant! Cymru o sefydliadau sydd fel ei gilydd yn galw am y newid hwn er mwyn rhoi i blant yr un lefel o amddiffyniad ag sydd eisoes ar gael i oedolion. Mae ein cefnogwyr yn cynnwys y prif gyrff rhianta, hawliau plant ac amddiffyn plant, yn ogystal â chyrrff sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod. Mae'r ymgyrch hefyd yn cael ei chefnogi gan Archesgob Cymru, y Comisiynydd Plant Keith Towler, y Gwir Anrh Rhodri Morgan, sawl enwad Cristnogol, arweinyddion Mwslimaidd ac ACau ac ASau o'r holl bleidiau gwleidyddol.

Ein nod, a gefnogir gan y 150+ o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ledled Cymru sy'n rhan o'r ymgyrch hon, yw sicrhau diwygio cyfreithiol er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant o dan y gyfraith ar ymosodiad, a hynny cyn gynted â phosibl. Dylai hyn fynd law yn llaw ag addysg i'r cyhoedd a chymorth i deuluoedd. Mae profiad o wledydd eraill¹ wedi dangos bod newid yn y gyfraith yn hanfodol i sicrhau'r effaith angenrheidiol. Ni ellir cyflawni hyn trwy addysg rhianta cadarnhaol yn unig. Mae'r sefyllfa gyfreithiol gyfredol yn 'gyfraith wael' nad yw'n adlewyrchu hawliau dynol plant, ac sy'n cyfleu negeseuon cymysg i rieni ac i blant; mae'n taseilio gwaith i leihau cam-drin domestig ac yn rhoi plant agored i niwed mewn perygl.

Mae'r cyrrff yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod² yn gadarn o blaid dileu amddiffyniad 'cosb resymol' oherwydd eu bod yn cydnabod bod hwn yn fater cydraddoldeb a hawliau dynol i blant, ac oherwydd y berthynas amlwg rhwng cosb gorfforol a cham-drin domestig. Maen nhw'n cydnabod bod gwahardd a dileu cosb gorfforol yn strategaeth ataliol hanfodol er mwyn dileu parodrwydd cymdeithasol i dderbyn trais mewn perthnasoedd rhwng pobl.

Cawsom ein calonogi am flynyddoedd lawer bod Gweinidogion Cymru wedi cefnogi'r nod hwn i'r carn, ac yn wir wedi'i fabwysiadu eu hunain. Ar adegau yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwaith 'SCP! Cymru a phleidleisiodd y Gweinidogion i fynegi eu siom ynghylch y diffyg cynnydd ar y mater hwn yn San Steffan yn 2004. Mae mwyafrif mawr ar draws y pleidiau wedi pleidleisio ddwywaith dros ddiwygio'r gyfraith yn y Cynulliad Cenedlaethol. Ac eto mae plant yng Nghymru'n dal i aros.

Mae asiantaethau blaenllaw ym maes cam-drin domestig yn cefnogi dileu amddiffyniad 'cosb resymol' yn llwyr o ran adran 58 o Ddeddf Plant 2004, oherwydd eu bod yn deall bod cyfreithloni cosb gorfforol yn taseilio ymdrechion i ddileu trais domestig am y rhesymau canlynol:

- Mae'n torri ar draws yr hawl dynol cyffredinol i amddiffyniad rhag trais

¹ Mae crynodeb o'r ymchwiliad mewn gwledydd eraill ar gael mewn dogfen frifio ar wahân sydd ar gael yma: <http://www.childrenareunbeatablecymru.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/International-experience-of-introducing-a-smacking-ban.pdf>

² Gweler Anecs 1 am restr o'r gyrff cam-drin domestig sydd wedi ymuno'n ffurfiol ag Ymgyrch 'SCP!.

- Mae'n dysgu plant bod trais yn dderbyniol
- Mae'n gwanhau egwyddor 'dim goddefiant' i drais yn y cartref

Adran 1: Pam mae'r Bil hwn yn offeryn addas ar gyfer diwygio

Yn ei datganiad cloi yn ystod trafodaeth Cyfnod 3 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC, y byddai cyfleoedd i edrych ar y mater hwn mewn deddfwriaeth oedd i ddod yn y tymor Cynulliad hwn. Fel y soniwyd eisoes, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes wedi pleidleisio ddwywaith o blaid gwahardd cosb gorfforol, a hynny gyda mwyafrif mawr ar draws y pleidiau (yn 2004 a 2011). Ymddengys mai'r Bil hwn yw'r cyfle delfrydol i symud ymlaen gyda hyn.

Cafwyd dros ddegawd o gefnogaeth gan y Cynulliad a Llywodraethau olynol Cymru³, gyda'r Llywodraeth yn cynnwys gwybodaeth am ei safiad polisi mewn datganiadau cyhoeddus, dogfennau ymgynghori a chyhoeddiadau ers blynyddoedd lawer. Cynhyrchwyd deunyddiau rhianta ac ariannwyd rhaglenni perthnasol gyda phlant a theuluoedd. Gwnaeth Llywodraeth Cymru addewid penodol i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, ac wedi hynny i blant a phobl ifanc Cymru, pan archwiliwyd cynnydd y DU tuag at weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Fel yr amlinellir yn Adran 5 isod, rhoddwyd cymaint o gyhoeddusrwydd ym mholisi Llywodraeth Cymru i lwyddo i ddileu'r amddiffyniad fel bod yr honiad a wneir weithiau gan Weinidogion cyfredol eu bod 'heb fandad' yn anhygoel.

Mae amddiffyniad 'cosb resymol' yn anghysondeb na ellir ei gyfiawnhau, ac mae'n gwrthdaro â chydarddoldeb a hawliau dynol. Mae'n anghysondeb sydd hefyd wedi'i seilio ar ddealltwriaeth anacronistaidd, sydd wedi hen ddyddio, o berthnasoedd 'perchnogaeth', pŵer a rheolaeth rhwng plant ac oedolion. Mae'r amddiffyniad yn cael ei gynnwys yn Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 – nid mewn deddfwriaeth cyfiawnder troseddol.

Fel yn achos holl ddeddfwriaeth Cymru, gellid wynebu her gyfreithiol, gan gynnwys atgyfeirio i'r Goruchaf Lys. Fodd bynnag, mae datblygiadau gwleidyddol diweddar a dyfarniadau'r Goruchaf Lys ar Filiau cynharach yn awgrymu bod llawer llai o debygolrwydd bellach y bydd hyn yn digwydd. Beth bynnag, ni fyddai unrhyw oedi'n hir, ac ar sail y cyngor cyfreithiol a gafwyd o sawl ffynhonnell wahanol, byddai'n annhebygol o lwyddo. Gan fod y Bil fel y'i cyflwynwyd yn canolbwyntio ar wneud polisi sydd eisoes yn bodoli yn statudol, ni fyddai angen achosi oedi yn y cyfraniad cadarnhaol y byddai'r Bil yn ei wneud o ran ymdrin â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domesig a thrais rhywiol yng Nghymru.

³ Mae cronoleg o gefnogaeth y Cynulliad a Llywodraeth Cymru i'w weld mewn briffiad ar wahân gan 'Sdim Curo Plant! sydd i'w weld yma: <http://www.childrenareunbeatablecymru.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/Wales-Devolution-and-Equal-Protection.pdf>

Mae profiad yn sgîl pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cadarnhau bod y newid angenrheidiol i ddileu amddiffyniad ‘cosb resymol’ yng nghyswllt ymosodiadau ar blant yng Nghymru yn glir, yn gryno ac yn hunangynhaliol. Ni fyddai’n cael effaith niweidiol ar gyflwyniad llwyddiannus gwelliannau eraill a geir mewn rhannau eraill o’r Bil; ni fyddai’n achosi oedi wrth eu gweithredu, ac yn y tymor hir byddai’n ychwanegu’n sylweddol at eu heffeithiolrwydd.

Y Bil fel y’i Cyflwynwyd a’r Memorandwm Esboniadol

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai bwriad cyffredinol y Bil (tudalen 4) yw creu ffocws cryfach a mwy cyson ar atal trais rhwng aelodau o’r teulu (gan gynnwys rhieni a phlant), amddiffyn dioddefwyr a chefnogi pawb yr effeithir arnynt. Mae’r Bil yn ymwneud â dileu a delio gydag effeithiau trais ar sail rhywedd, sydd wedi’i wreiddio yn anghydbwysedd presennol a hanesyddol cymdeithas o ran pŵer a rheolaeth. Mae’n ceisio dileu trais yn y teulu, ond yn anwybyddu’r ffaith mai cosb gorfforol i blant yw’r unig fath o drais rhwng personau sy’n dal yn gyfreithlon.

Yn ôl paragraff 6 ar dudalen 8 o’r Memorandwm Esboniadol, bwriad y Bil yw darparu “ffocws strategol” a “sichrau ystyriaeth gyson i fecanweithiau ataliol, amddiffynnol a chefnogol”. Tra bod taro plant yn dal yn gyfreithlon, ni ellir sicrhau cysondeb agwedd o ran ataliaeth nac amddiffyniad rhag trais a chamdriniaeth.

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod bwlch arweinyddiaeth ym maes trais rhywedd wedi’i nodi gan Bywydau Mwy Diogel (Safer Lives) ac adroddiad Robinson (mae paragraff 16 yn dyfynnu Robinson fel a ganlyn: *“...Leadership is required because many of the issues are sensitive, disturbing and ‘below the radar’ of both frontline professionals and most citizens... Leadership is required because the Welsh Government’s commitment in this area, as indicated by this legislative initiative, must lead to an effective and sustainable programme of change.”* [...mae Arweinyddiaeth yn ofynnol oherwydd bod llawer o’r materion yn sensitif, yn ysgytiol ac ‘o dan y radar’ ymhlith gweithwyr proffesiynol rheng flaen a’r mwyafrif o ddinasyddion... mae Arweinyddiaeth yn ofynnol oherwydd bod rhaid i ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, fel y nodwyd gan y fenter ddeddfwriaethol hon, arwain at raglen effeithiol a chynaliadwy o newid.]).

Mae’r sylwadau hyn yr un mor berthnasol i gosb gorfforol i blant. Mae gwahardd trais yn gyfangwbl ddibynnol ar arweinyddiaeth, ac ni fydd oedi pellach yn creu argraff dda i Lywodraeth Cymru na’r Cynulliad. Nid yw’r un wlad wedi gwahardd cosb gorfforol i blant ar sail barn y cyhoedd. Os yw Llywodraeth Cymru’n ddigon dewr i herio agweddau’r cyhoedd yng nghyswllt hawliau dynol oedolion, mae’n anodd gweld pam na allant arddangos yr un penderfyniad yng nghyswllt hawliau dynol, lles ac amddiffyniad plant. Ni ellir sicrhau rhaglen effeithiol o newid os parheir i gyfreithloni cam-drin domestig o unrhyw fath.

Mae Paragraff 33 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai prif nod Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn yw ei fod yn "lleihau lefelau trais", trwy gynyddu ymwybyddiaeth a mesurau eraill. Mae Adran 5 isod yn amlinellu tystiolaeth ymchwil sy'n dangos bod lefelau trais at blant yn lleihau'n weladwy ar ôl gwahardd smacio.

Mae Paragraff 40 yn egluro bod "cam-drin domestig" yn cynnwys trais rhwng "aelodau o'r teulu" (ein pwyslais ni). Rhaid i hyn gynnwys rhwng rhiant a phlentyn, felly ni ellir cyfiawnhau bod y Bil yn caniatáu i adran 58 fodoli yng Nghymru.

Yn olaf, mae paragraff 55 o'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y mesurau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yng nghyswllt ysgolion. Mae'r cyfnod yn yr ysgol yn bwysig, ond nid yw'n cychwyn nes bod plentyn eisoes wedi datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n dderbyniol, ar sail y patrymau ymddygiad a brofwyd gartref. Cydnabyddir yn gyffredinol mai rhieni/gofalwyr yw prif fodolau ymddygiad plant, a'r addysgwyr mwyaf dylanwadol, felly mae'n rhaid mynd i'r afael â pharodrwydd cymdeithas i dderbyn trais yn y cartref, yn ogystal ag mewn ysgolion.

Adran 2: Rheidrwydd hawliau dynol⁴

Mae amddiffyn rhag ymosodiad yn un o'r hawliau dynol cyffredinol

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i dderbyn y dylai'r diffiniad polisi o gam-drin domestig gynnwys trais yn erbyn plant yn y teulu, gan gydnabod na allwn herio trais domestig yn effeithiol os ydym yn cynnal cyfreithlonedd ymosod ar blant yn y teulu. Mae'r diffiniad a ddefnyddir bellach wedi newid, er gwaethaf cyflwyno'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (y Mesur), sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi 'sylw dyledus' i CCUHP. Mabwysiadwyd y Mesur yn unfrydol gan y Cynulliad Cenedlaethol ac mae bellach wedi dod i rym yn llawn. Mae'n gwneud parch at Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ac argymhellion y Pwyllgor yn ofynnol.

Ymhlyg yn sylw dyledus i CCUHP yn y maes gwaith hwn, fel sy'n ofynnol o dan y Mesur, mae ymrwymiad penodol i amddiffyn plant yn llawn rhag pob math o drais yng nghartref y teulu (Erthygl 19 o'r Confensiwn) fel y cadarnhawyd gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Yn Adran 3 isod rydym yn disgrifio nifer o astudiaethau ymchwil sy'n dangos cysylltiadau cryf rhwng cosb gorfforol "arferol" i blant ac ymddygiad ymosodol, treisgar sy'n gorfodi yn ystod plentyndod ac yn ddiweddarach mewn bywyd. Yn y pen draw mae'r dystiolaeth hon yn amherthnasol yn sgîl yr achos hawliau dynol llethol dros gyfraith sy'n gwahardd cosb gorfforol.

⁴ Mae manylion llawn ynghylch y pwysau Hawliau Dynol sydd ar Gymru fel rhan o'r DU i ddileu amddiffyniad cosb resymol i'w gweld mewn briffiad ar wahân yma: <http://www.childrenareunbeatablecymru.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/Why-Wales-should-ban-smacking-now-International-Human-Rights-pressure-and-the-Rights-of-Children-and-Young-Persons-Wales-Measure.pdf>

Dywedwyd droeon wrth y DU gan gyrrff cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol bod rhaid iddi ddileu amddiffyniad 'cosb resymol'.⁵ Nid oes arnom angen astudiaethau ymchwil ar effeithiolrwydd artaith nac effaith curo gwragedd ar berthnasoedd i wahardd y pethau hynny: maen nhw'n rhan o hawliau dynol.

Mae rhai wedi dadlau bod plant yn wahanol i oedolion oherwydd nad ydynt eto'n gymwys, a bod angen cyfarwyddyd a rheolaeth rhieni arnynt. Ond gall fod angen rheoli pobl hŷn sy'n dioddef o dementia, gyda'u gofalwyr yn cadw trefn arnynt yn yr un modd â phlant; ond does neb yn honni bod gan y gofalwr hawl i'w taro yn sgîl hynny. Y rheswm am hynny yw ein bod yn cydnabod, i ba raddau bynnag y mae ei (g)alluoedd wedi lleihau, bod gan berson hŷn hawliau dynol o hyd.

Gall fod yn anodd i rai gydnabod bod cosb gorfforol yn amharu ar hawliau, ac yn ffordd wael o fagu plant, a hynny oherwydd ei bod wedi cael ei defnyddio'n gyffredin cyhyd gan rieni, a'i chydoddef gan gymdeithas – mewn modd tebyg i gydoddef cam-drin domestig yn y gorffennol fel 'mater preifat'. Mae plant yn cael eu smacio gan y rhai maen nhw'n eu caru fwyaf yn eu blynyddoedd cynnar a mwyaf ffurfiannol, ac yn naturiol, maen nhw'n derbyn hynny fel ymddygiad normal, cywir. Bydd llawer yn dweud eu bod wedi'i haeddu.

Mae mwyafrif llethol y rhieni sydd wedi cosbi eu plant yn gorfforol wedi gwneud hynny oherwydd eu bod yn meddwl mai dyna oedd y peth cywir i'w wneud, nid er mwyn achosi poen neu niwed iddyn nhw. Rhoddwyd rhesymau tebyg – gan gyfeirio at greddau diwylliannol neu grefyddol – yn y gorffennol am arferion sydd bellach yn cael eu hystyried yn atgas (megis Llurgunio Organau Rhywiol Merched (FGM)). Petai'n fater deallusol yn unig, byddai cosb gorfforol wedi cael ei gwahardd ddegawdau yn ôl. Mae llawer o'r rhai sy'n cefnogi 'SCP! Cymru yn dweud bod eu hagweddau wedi newid gydag amser a phrofiad – nid lleiaf oherwydd bod gwaharddiad yn fesur ataliol amlwg i wrthweithio trais rhwng oedolion.

Mae dileu'r amddiffyniad, ac felly roi amddiffyniad cyfartal i blant o dan y gyfraith ar ymosodiad yn rhwymedigaeth ar unwaith o dan CCUHP ac offerynnau hawliau dynol eraill a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU. Argymhellwyd bod Llywodraeth y DU yn ei ddileu droeon gan gyrrff monitro hawliau dynol y CU (gan gynnwys tair gwaith gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn a dwywaith gan y Pwyllgor ar Ddileu Camwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) – corff hawliau dynol y CU sy'n ymwneud fwyaf â thrais yn erbyn menywod a merched).

Mae'r cyrrff hawliau dynol rhyngwladol hyn yn datgan yn ddiamwys bod gan blant yr un hawl i amddiffyniad cyfreithiol rhag ymosodiad ag oedolion. Mae'r ffaith bod plant mor agored i niwed yn ei wneud yn fwy hanfodol fyth bod y gyfraith yn eu hamddiffyn, ac yn peri bod yr

⁵ Mae'r rhain yn cynnwys: Pwyllgor Hawliau'r Plentyn (dair gwaith: 1995, 2002 a 2008); Y Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ddwywaith: 2002 a 2009); Y Pwyllgor ar Ddileu Camwahaniaethu yn erbyn Menywod (ddwywaith: 2008 a 2013); Pwyllgor Hawliau Cymdeithasol Ewrop (ddwywaith: 2005 a 2012). Mae'r DU hefyd wedi derbyn argymhellion droeon gan wladwriaethau eraill i wahardd pob cosb gorfforol yn yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol gan y Cyngor Hawliau Dynol yng Ngenefa (ddwywaith: 2008 a 2012)

anghysondeb presennol lle mae ganddynt lai o amddiffyniad cyfreithiol yn peri anesmwythyd, yn ogystal â bod yn abswrdd.

Mae CEDAW – sy'n monitro gweithrediad y Confensiwn ar Ddileu pob math o Gamwahaniaethu yn erbyn Menywod – wedi cydnabod bod y Confensiwn yn gofyn bod llywodraethau'n amddiffyn menywod yn erbyn trais o unrhyw fath sy'n digwydd o fewn y teulu ac mewn rhannau eraill o'u bywyd cymdeithasol, a bod gweithredu'r Confensiwn yn llawn yn gofyn bod Gwladwriaethau'n dileu pob math o drais yn erbyn menywod. Yn ei sylwadau terfynol ar adroddiad y DU yn 2008, nododd y Pwyllgor gyda phryder "bod cosb gorfforol yn gyfreithlon yn y cartref ac yn fath ar drais yn erbyn plant, gan gynnwys plant sy'n ferched". Argymhelliad y Pwyllgor oedd bod y "Parti Gwladol yn cynnwys yn ei ddeddfwriaeth waharddiad ar gosb gorfforol i blant yn y cartref". Yn 2013 ailadroddodd ei bryder bod cosb gorfforol yn dal yn gyfreithlon yn y cartref, ac anogodd y DU "i ddiwygio'i deddfwriaeth er mwyn gwahardd cosb gorfforol i blant yn y cartref".

Mae CCUHP yn gofyn bod gwladwriaethau'n amddiffyn plant rhag "pob math ar drais corfforol neu feddyliol" pan fyddant yng ngofal rhieni neu eraill (erthygl 19). Mae'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn – corff monitro CCUHP – yn dehongli'n gyson mai gofyniad y Confensiwn yw bod pob cosb gorfforol yn y teulu ac ym mhob lleoliad arall yn cael ei gwahardd, gan gysylltu hynny â chynyddu ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd. Yn 2006, mabwysiadodd y Pwyllgor Sylw Cyffredinol Rhif 8 ar hawl y plentyn i amddiffyniad rhag cosb gorfforol a dulliau eraill o gosbi sy'n greulon neu'n ddiraddiol: yn ôl y Pwyllgor, mae ymdrin â chosb gorfforol i blant yn "strategaeth allweddol ar gyfer lleihau ac atal pob math o drais mewn cymdeithasau".

Bu Cadeirydd presennol Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, Kirsten Sandberg, yn ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2013, a chyflwynodd yr wybodaeth hon i Grŵp Plant a Phobl Ifanc Hollbleidiol y Cynulliad. Roedd yn amlwg ei bod hi'n methu deall pam na welwyd cynnydd pellach ar y mater hwn yng Nghymru.

Adran 3: Amddiffyn plant

Byddai dileu'r amddiffyniad hwn, nad yw'n berthnasol ond i ymosodiadau ar blant, yn ymdrin ag anghysondeb sydd wedi hen ddyddio. Ni fyddai'n creu trosedd newydd, ond yn hytrach yn estyn i blant yr amddiffyniad y mae unigolion eraill yn ei dderbyn eisoes o dan y gyfraith, gan roi amddiffyniad **cyfartal** i blant – dim mwy, dim llai.

Mae Adran 58 yn tanseilio amddiffyn plant am y rhesymau canlynol:

- Dengys ymchwil, oherwydd nad yw'n effeithiol i newid ymddygiad tymor hir, bod rhai rhieni'n symud ymlaen o smacio 'ysgafn' i ymosodiadau difrifol;
- Mae'n caniatáu lefel fympwyol o drais sy'n amharu ar integriti corfforol plant, gan greu

llwybr posibl at gamdriniaeth gorfforol neu rywiol ddifrifol;

- Ni all gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd gyfleu negeseuon clir nad yw taro a niweidio plant yn cael ei ganiatáu;
- Nid yw plant yn rhoi gwybod am rywbeth mae pobl yn dweud wrthyn nhw ei fod yn cael ei ganiatáu a'i gyfiawnhau;
- Nid oes gan y rhai sy'n tystio i drais yn erbyn plant lawer o hyder i ymyrryd eu hunain na rhoi gwybod i'r awdurdodau amdano;
- Mae rhieni'n derbyn negeseuon dryslyd ynghylch cyfreithlonedd niweidio'u plant;
- Mae Adran 58 yn methu ag amddiffyn plant rhag ymosodiadau poenus, peryglus, diraddiol neu fynych, ac maen nhw'n cael y neges bod taro pobl yn dderbyniol;
- Mae amddiffyniad 'cosb resymol' yn tanseilio mentrau i leihau cam-drin domestig a lefelau trais yn gyffredinol oherwydd ei fod yn anghyson â'r neges nad yw byth yn dderbyniol ceisio rheoli ymddygiad rhywun arall trwy eu taro neu eu niweidio.

Efallai y bydd rhai'n dadlau nad yw smacio'n golygu cam-drin plant, ond mae cosb gorfforol yn chwarae rhan ganolog wrth gam-drin plant. Gyda'r gyfraith fel y mae, ni all gweithwyr amddiffyn plant proffesiynol gyfleu negeseuon clir i deuluoedd nad yw niweidio plant yn cael ei ganiatáu.

Codi bwganod ynghylch 'troseddoli' rhieni da

Prif bwrpas newid y gyfraith yw atal plant rhag cael eu cosbi'n gorfforol yn y lle cyntaf, nid erlyn rhieni ar ôl iddynt niweidio'u plant. Mae gan rieni ryddid i fagu eu plant fel y mynnant, ond oddi mewn i derfynau. Nid yw gwahardd smacio yn ychwanegu at broblemau teuluoedd sy'n agored i niwed.

Nid yw rhieni'n mwynhau smacio, ac maen nhw'n tueddu i'w ddefnyddio dim ond pan fyddant o dan straen ac yn ddig.⁶ Pan fydd rhieni'n cefnu ar smacio maent yn ddieithriad yn cael bod bywyd y teulu ac ymddygiad y plant yn gwella, ac maen nhw'n falch eu bod wedi cymryd y cam hwn.⁷ Felly mae gwaharddiad yn llawn cymaint o gymhelliad – mesur i roi "hwb" – ag ydyw o ataliad. Mae sefydliadau sy'n darparu cymorth rhianta yng Nghymru yn cadarnhau bod newid o rianta negyddol i rianta cadarnhaol yn creu sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill. Mae rhieni'n pennu ffiniau cliriach, mae plant yn ymddwyn yn well, mae perthnasoedd teuluol yn gwella ac mae llai o angen cosbi.

Dengys profiad o'r 39 gwlad sydd eisoes wedi gwneud y newid fod agweddau'r cyhoedd a'u hymarfer yn newid yn gyflym ar ôl diwygio'r gyfraith. Nid oes unrhyw wlad wedi diddymu'r cyfryw ddeddfwriaeth ar ôl ei chyflwyno; hyd yn oed pan fu newid yn y llywodraeth. Rydym yn

⁶ Gershoff, E. T. (2002), "Corporal punishment by parents and associated child behaviors and experiences: A meta-analytic and theoretical review", *Psychological Bulletin*, 128(4), 539-579;

⁷ Gweler uchod, a hefyd Beauchaine T. P. et al (2005), "Mediators, moderators, and predictors of 1-year outcomes among children treated for early-onset conduct problems: a latent growth curve analysis", *Journal of Consulting and Clinical Psychology* 73: 371-88, astudiaeth o 500 o deuluoedd a hyfforddwyd i gefnu ar gosb gorfforol a oedd yn cyfateb yn union i welliant yn ymddygiad y plant.

gwybod o brofiad gwledydd megis Sweden, y Ffindir, yr Almaen a Seland Newydd bod tebygolrwydd canlyniadau negyddol yn sgîl 'gwaharddiad smacio', fel y gelwir y diwygiad hwn weithiau, bron yn ddim. I'r gwrthwyneb, yn dilyn gwaharddiad gallwn fod yn hyderus y bydd Cymru'n rhywle lle mae plant yn fwy diogel, yn hapusach, yn ymddwyn yn well, yn fwy abl i gyflawni eu potensial, ac yn llai tebygol o ymwneud â thrais domestig yn ystod oedolaeth neu i gredu eu bod yn 'haeddu' cael eu cam-drin gan bartner.

Ni fyddai gwneud y newid hwn yn golygu bod pob smac yn arwain at erlyniad na bod rhieni da yn cael eu troseddoli. Ni fyddai newid i'r trothwy 'niwed sylweddol' y mae gweithwyr amddiffyn plant proffesiynol, gan gynnwys yr heddlu, yn ei ddefnyddio. Yn y mwyafrif o achosion, byddai angen darparu cymorth rhianta neu gymorth gyda heriau eraill y mae'r teulu yn eu hwynebu; ond mewn achosion mwy difrifol byddai gweithwyr proffesiynol yn gallu defnyddio'r gyfraith pan fyddai angen i amddiffyn plant agored i niwed yn llawn. Codi bwganod yw awgrymu y byddai rhieni'n cael eu llusgo trwy'r system cyfiawnder troseddol am smacio ysgafn, gan fod Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a gwasanaethau gofal plant wedi cadarnhau na fyddai hynny'n digwydd⁸.

Mae'r heddlu a gweithwyr cymdeithasol eisoes yn derbyn adroddiadau gan bobl sy'n pryderu am blant yn cael eu taro ac maent yn gyfarwydd ag ymyrryd yn briodol, gyda'r nod o gefnogi rhieni a phlant heb orfod troi at ymyrraeth gyfreithiol oni bai bod hynny er lles pennaf y plentyn neu'r plant. Ni allai dileu amddiffyniad 'cosb resymol' ond helpu'r broses hon. Ni fyddai dileu amddiffyniad 'cosb resymol' yn arwain at erlyn rhieni am smacio ysgafn oni fernid bod hynny er lles y cyhoedd ac er lles pennaf y plentyn dan sylw. Eto, hoffem bwysleisio na fyddai newid yn y trothwy 'niwed sylweddol' ar gyfer ymchwiliadau gwaith cymdeithasol ffurfiol. Ond byddai'r gyfraith yn gwneud popeth o fewn ei gallu trwy gyfleu neges glir yng nghartref y teulu ei bod hi yr un mor anghyfreithlon ac annerbyniol taro plentyn ag yw hi i daro unrhyw un arall.

Mae Adran 58 yn methu ag amddiffyn plant rhag ymosodiadau poenus, peryglus, diraddiol neu fynych, a thrwy ganiatáu amharu ar integriti corfforol plant, mae'n creu llwybr posibl at gamdriniaeth rywiol. Mae'r rhai sy'n tystio i gosb gorfforol (neu'n ei phrofi) yn aml yn amharod i ymyrryd neu gwyno. Ar ôl diwygio, bydd aelodau o'r cyhoedd yn teimlo'n fwy hyderus i roi gwybod am achosion sydd wedi achosi pryder iddynt. Bydd rhieni sy'n teimlo eu bod ar fin 'colli rheolaeth' hefyd yn gwybod bod estyn llaw i daro yn erbyn y gyfraith.

⁸ Mewn tystiolaeth i'r Cyd-bwyllgor Seneddol ar Hawliau Dynol ar 25 Mai 2005 ni ddywedodd Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar y pryd ei bod hi'n amhosibl y gellid mynd â rhiant i'r llys am smac ysgafn, ond pwysleisiodd y gallai hynny fod yn briodol o dan amgylchiadau prin iawn yn unig. Mewn datganiad ar y cyd yn 2008 cadarnhaodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, BASW, BASPCAN, Unite – Cymdeithas yr Ymarferwyr Cymunedol a'r Ymwelwyr Iechyd; NSPCC, Parenting UK a Cholegau Brenhinol pediatreg a nyrsio na fyddai trothwy "niwed sylweddol" ar gyfer ymyrraeth gwaith cymdeithasol mewn teuluoedd sydd mewn perygl yn newid yn dilyn gwaharddiad ar smacio. Mae datganiad tebyg ar y cyd wedi cael ei lofnodi'n ddiweddar gan ADSS Cymru, BASW Cymru a nifer o Fyrddau Diogelu Lleol yng Nghymru.

Adran 4: Cysylltiadau rhwng cosb gorfforol, cam-drin domestig a thrais arall

Mae cosb gorfforol yn dysgu plant bod trais yn dderbyniol

Pryd bynnag y mae plant yn cael eu cosbi'n gorfforol, maen nhw'n derbyn dwy neges glir. Y gyntaf yw bod taro rhywun yn ffordd gyfreithlon o'u rheoli, o ddatrys gwrthdaro neu o fynegi anfodlonrwydd. Yr ail neges yw bod y rhai sy'n derbyn cosb gorfforol yn haeddu triniaeth o'r fath. Gall y ddwy neges gael effaith wenwynig ar feddyliau plant sy'n tyfu a chyfrannu at barodrwydd cymdeithasol i dderbyn trais yn ystod oedolaeth.

Hyd yn oed pan fydd deddfwriaeth, mae'n rhaid gwneud llawer o waith i newid agweddau yn y gymdeithas. Er enghraifft, canfu ymchwil gan y llywodraeth fod tua dau o bob deg o oedolion yn credu ei bod hi weithiau'n dderbyniol i ddyn daro neu slapio ei wraig neu ei gariad oherwydd y dillad mae hi'n eu gwisgo. Canfu arolwg o fwy na 2,000 o bobl ifanc 14-21 oed y gallai bron hanner y dynion ifanc a thraean o'r menywod ifanc ddychmygu amgylchiadau pryd y bydden nhw'n credu ei bod hi'n dderbyniol i ddyn daro ei bartner benywaidd, ac roedd un o bob wyth o'r dynion ifanc yn meddwl bod "nagio" yn cyfiawnhau trais. Canfu arolwg NSPCC o bobl ifanc fod bron hanner (43 y cant) y merched yn eu harddegau yn credu ei bod hi'n dderbyniol i ddyn ymddwyn yn ymosodol tuag at ei bartner.⁹

Mae'r rhai sy'n cyflawni trais domestig yn aml yn ceisio cyfiawnhau eu hymddygiad drwy gyfeirio at ymddygiad y dioddefwyr, gan ddefnyddio iaith sydd â sawr cosb gorfforol yn gryf arni – "dim ond smac oedd e", "roedd hi'n gofyn am slapad". Nid yw barn o'r fath yn ymddangos o'r gwacter. Mae ymchwil wedi dangos y gall fod cysylltiad rhwng cosb gorfforol yn ystod plentyndod a cham-drin partner yn ddiweddarach mewn bywyd (gweler Adran 5 isod). Caiff derbynioldeb cosbi â thrais ei fewnoli o oed ifanc, ac mae wedi'i wreiddio'n ddwfn yn ein cymdeithas.

Bydd mesurau i newid derbynioldeb cymdeithasol trais rhwng pobl – er enghraifft trwy ddarparu addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion – yn cael eu tansilio'n ddifrifol oni bai ei fod yn gwbl glir nad yw defnyddio trais o unrhyw fath i reoli neu gosbi eraill, beth bynnag yw eu hoed, byth yn dderbyniol.

Mae defnyddio cosb gorfforol yn gwanhau egwyddor dim goddefiant i drais yn y cartref

Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes trais domestig wedi mynegi rhwystredigaeth ddofn ynghylch y gyfraith smacio; tynnodd Cymorth i Fenywod a Refuge sylw at eironi cyflwyno cyfraith sy'n gwneud ymosodiad cyffredin rhwng oedolion yn drosedd y gellir arestio amdani yn yr un flwyddyn â chyflwyno amddiffyniad 'cosb resymol' am ymosodiadau cyffredin yn erbyn plant, a meddu ar gyfraith sy'n cydnabod y niwed mae tystio i drais domestig yn ei wneud i blant ar yr un pryd â gwrthod eu hamddiffyn rhag profi hynny. Mae mwyafrif llethol y gwasanaethau ym maes trais domestig a rhywiol nid yn unig yn cefnogi nodau

⁹ Alarm at acceptance of abuse by teenage girls, 2005
<http://www.theguardian.com/uk/2005/mar/21/ukcrime.children>

Cynghrair 'Sdim Curo Plant!, ond hefyd yn gweithredu'n unol â'u geiriau trwy gynnal polisi dim goddefiant gwirioneddol, gan wahardd pob math ar drais mewn llochesi, gan gynnwys cosb gorfforol i blant.

Mae'n gwbl amlwg bod agweddau at drais yn cychwyn yn y cartref ac yn dod o dan ddylanwad triniaeth yn ystod y blynyddoedd cyn-ysgol. Nid yw'r gwaith hwn yn cychwyn wrth gatiâu'r ysgol. Rydym ni'n gwybod bod rhieni'n gweithredu fel modelau ymddygiad – mae rhieni sy'n smygu yn fwy tebygol o gael plant sy'n smygu, mae plant rhieni sydd wedi bod yn y carchar yn fwy tebygol o droseddu, ac yn y blaen – mae felly'n hollbwysig bod mesurau'n cael eu cymryd i atal rhieni rhag taro eu plant. Beth bynnag yw'r bwriad o ran disgyblu, ni ellir goresgyn y neges a gyfleir gan gosb gorfforol – sef bod taro rhywun annwyl er mwyn eu cosbi neu eu rheoli yn ymddygiad derbyniol. Caiff y neges hon ei throsglwyddo i blant yn gynnwys yn eu datblygiad, ac mae'n cael ei mewoli heb ei harchwilio.

Mae cosb gorfforol yn tanseilio cydraddoldeb rhyw ym mywyd y teulu a'r gymdeithas ehangach

“Gender ideologies that dictate that men should control women or allow for men to physically control their partners or children are forms of gender-based structural violence.”

[Mae ideolegau rhywedd sy'n ordeinio y dylai dynion reoli menywod neu sy'n caniatáu i ddynion reoli eu partneriaid neu eu plant yn gorfforol yn fathau ar drais strwythurol ar sail rhywedd]

Rashida Manjoo, Rapporteur Arbennig y CU ar Drais yn erbyn Menywod

Mae dileu pob trais yng nghartref y teulu yn elfen allweddol o sicrhau cydraddoldeb ym mywyd y teulu. Mae Argymhelliad Cyffredinol Rhif 19 Pwyllgor y CU ar Ddileu Camwahaniaethu yn erbyn Menywod, ar drais yn erbyn menywod (1992)¹⁰ yn ei gwneud yn eglur bod trais ar sail rhywedd yn enghraifft o gamwahaniaethu ac yn amharu ar gyflawni hawliau menywod, neu yn eu dileu, gan gynnwys eu hawl i gydraddoldeb yn y teulu. Mae cysylltiad agos rhwng trais yn erbyn menywod a chosb gorfforol i blant yng nghartref y teulu, ac maent yn aml yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd.

Mae Argymhelliad Cyffredinol Rhif 19 yn amlygu bod agweddau traddodiadol sy'n gweld menywod fel pobl israddol i ddynion yn sicrhau bod trais o fewn y teulu yn parhau. Mae dileu cyfreithlondeb pob trais yng nghartref y teulu yn rhan hanfodol o herio'r agweddau hyn.

Mae cosb gorfforol i blant a thrais yn erbyn menywod yn deillio o'r un strwythurau pŵer hierarchaidd a phatriarchaidd, sy'n cynnal y cysyniad bod merched a menywod yn is na dynion, a bod plant yn is nag oedolion. Mae cyfreithlondeb cosb gorfforol i blant yn cynnal y strwythurau pŵer hyn.

¹⁰ <http://www.un.org/womenwatch/daw/cedaw/recommendations/recomm.htm#recom19>

Oni bai bod plant yn derbyn amddiffyniad cyfartal, bydd y sefyllfa wrthnysig yn parhau, gyda'r un oedolion sy'n cael eu hatal o dan y gyfraith rhag ymddwyn yn dreisgar tuag at eu partneriaid yn dal i fedru ymddwyn felly tuag at eu plant heb gael eu cosbi. Mae'r Bil yn osgoi'r mater hwn trwy gydnabod y niwed a wneir i blant wrth dystio i drais yn y cartref yn unig, ac anwybyddu'r trais y maent yn ei wynebu'n uniongyrchol o dan fantell 'disgyblaeth'. O safbwynt hawliau dynol, ni ellir amddiffyn y safbwynt hwn. Ni all cartref lle mae'n gyfreithlon cosbi plant trwy eu taro a'u niweidio byth fod yn gwbl ddiogel na di-drais.

Ni ellir llwyddo i leihau trais a chamdriniaeth oddi mewn i gylch y cartref, yn ogystal â thrais ar sail rhywedd, ond os adlewyrchir y cysyniad bod pob aelod o'r teulu yn meddu ar hawliau dynol cyfartal – gan gynnwys yr hawl i ryddid rhag cael eu taro, eu niweidio neu eu cam-drin – mewn deddfwriaeth. Os bydd cosb gorfforol i blant yn parhau'n gyfreithlon, bydd y syniad ei bod hi'n dderbyniol i'r rhai â statws cymdeithasol canfyddedig uwch ddefnyddio trais i reoli a rheoleiddio ymddygiad y rhai y canfyddir eu bod yn israddol yn parhau wedi'i grisialu yn y gyfraith.

Mae hyn yn gwanhau amddiffyniad menywod yn ogystal â phlant. Mae gwledydd sydd heb wahardd cosb gorfforol, i bob pwrpas, yn caniatáu i'r strwythur pŵer sy'n darparu sylfaen ar gyfer trais domestig yn erbyn menywod barhau heb ei herio.

Adran 5: Gweithredu

Dim rheswm dros oedi pellach

Bu cryn ymgynghori cyhoeddus ar y mater hwn eisoes yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae bwriad Llywodraethau blaenorol Cymru i deddfu wedi bod yn y parth cyhoeddus ers dros ddegawd, ac ar hyd y cyfnod hwnnw, bu negeseuon rhianta ac addysgu'r cyhoedd yn adlewyrchu hynny. Mae'r rhai sy'n darparu rhaglenni rhianta, yn ogystal â rhieni a gweithwyr proffesiynol, wedi bod yn disgwyl y newid ers peth amser.

Mynegodd Llywodraeth Cymru ei chefnogaeth ffurfiol am y tro cyntaf i argymhelliad Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn y dylid gwahardd pob cosb gorfforol o dan y gyfraith nôl yn 2002¹¹ a hyd at 2011 roedd cefnogaeth ddealedig i ddiwygio deddfwriaethol. Ymddangosai mai'r unig rwystr oedd diffyg pwerau deddfu.

Yn ystod y blynyddoedd ers hynny, derbyniodd 'Sdim Curo Plant! Cymru gyllid gan Lywodraeth Cymru, pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol, â mwyafrif mawr, dros fynegi siom ffurfiol bod y DU wedi methu â deddfu i wahardd cosb gorfforol, gwnaed nifer o ddatganiadau Gweinidogol ar ymrwymiad Cymru i'r gwaharddiad, ac aeth Aelodau Cynulliad ar ymweliad â Sweden i edrych ar effaith y gwaharddiad yno (a ddaeth i rym 35 mlynedd yn ôl). Yn 2004 cyflwynodd Llywodraeth

¹¹ Datganiad gan y Cabinet, *Cefnogi plant a rhieni yng Nghymru*, 23 Hydref 2002.

Cynulliad Cymru *Gweithredu'r Hawliau*, oedd yn cyflwyno'i chynigion o ran polisi a darpariaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys gwaharddiad llawn:

“Cred Llywodraeth y Cynulliad y dylid dod â'r amddiffyniad cyfreithiol presennol o 'gosbedigaeth resymol' i ben. Dymunwn annog parch at hawliau plant i gael eu disgyblu mewn ffyrdd di-drais sy'n gyson ag urddas dynol, gan gynnwys drwy raglenni addysg gyhoeddus. Rydym wedi mynegi barn am hyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig...**Mae plant sy'n cael eu smacio'n fwy tebygol o gredu mai'r cryf sy'n cael eu ffordd a bod trais yn ddull derbyniol o fynegi safbwynt neu o ddelio gyda dicter neu rwystredigaeth** (ein pwyslais ni).”¹²

Yn 2005 darparwyd cyllid i ddatblygu pecyn offer dwyieithog ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda rhieni i newid agweddau ac ymddygiad at gosb gorfforol, ac i gefnogi rhieni i gael hyd i ddulliau amgen o reoli ymddygiad plant¹³. Dyma'r hyn a gofnodwyd yn adroddiad y DU i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn 2008:

“Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymrwymo i gefnogi gwaharddiad ar gosb gorfforol i blant, ac mae wedi talu am gyhoeddi llyfryn o'r enw Help Llaw a roddir i bob rhiant newydd sy'n rhoi cyngor ar ffyrdd cadarnhaol o ddelio gydag ymddygiad ac osgoi smacio.”¹⁴

Yn 2009 lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu pum mlynedd ar gyfer plant a phobl ifanc, *Gwneud Pethau'n Iawn*, lle mae Blaenoriaeth 10 (o 16) yn nodi “gwneud cosb gorfforol i blant a phobl ifanc yn anghyfreithlon ym mhob sefyllfa”¹⁵.

Yn 2011, wedi i Brif Weinidog Cymru gadarnhau bod pŵer gan y Cynulliad bellach i ddiddymu adran 58 ac felly 'wahardd smacio', pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol, gyda mwyafrif o 24 i 15, dros annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon (roedd yn ofynnol i weinidogion y Llywodraeth atal eu pleidlais).¹⁶

Mae llawer iawn o waith paratoi wedi'i wneud eisoes yng Nghymru, ac ni ddylai fod rhaid i blant aros, nawr bod gan Gymru bŵer i ddeddfu. Mae'n anodd dychmygu dadl debyg dros oedi yn

¹² Fframwaith Partneriaeth *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2004

¹³ Mae'r pecyn offer yn dal i gael ei ddefnyddio, gweler <http://www.helpathandtoolkit.info/>

¹⁴ Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn: Trydydd a phedwerydd adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, 25 Chwefror 2008, CRC/C/GBR/4

¹⁵ *Gwneud pethau'n iawn 2009 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cynllun Gweithredu treigl 5 mlynedd i Gymru, yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu allweddol sydd i'w cyflawni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn 2008*, Tachwedd 2009, Llywodraeth Cynulliad Cymru

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/gettingitright2009/?lang=en>

¹⁶ Cofnod gweithrediadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 19 Hydref 2011

cael ei defnyddio yng nghyswllt amddiffyn menywod rhag ymosodiad – buasai unrhyw awgrym bod angen aros i ddiwygio'r gyfraith nes bod darpariaeth ddigonol o raglenni ar gyfer cyflawnwyr, gwasanaethau camdefnyddio alcohol neu sylweddau, neu sicrhau cyflogaeth lawn, yn destun dirmyg a gwatwar.

Adran 6: Tystiolaeth o waith ymchwil

Ymchwil ar gosb gorfforol a thrais domestig

Dengys tystiolaeth ymchwil fod cysylltiadau clir rhwng cosb gorfforol yn ystod plentyndod a chyflawni trais yn erbyn partneriaid yn ddiweddarach mewn bywyd. Yn 2002, cynhaliodd Elizabeth Gershoff feta-ddadansoddiad o 88 astudiaeth ar effaith cosb gorfforol "arferol", gan fynd ati'n fwriadol i osgoi astudiaethau ar "gamdriniaeth" (h.y. ymosodiadau lle bu'n rhaid i'r wladwriaeth ymyrryd).¹⁷ Yn 2008 diweddarwyd y canfyddiadau.¹⁸ Dangosodd y meta-ddadansoddiad gonsensws cryf o ran canlyniadau negyddol niferus cosb gorfforol, gan gynnwys erydu'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn, mewnnoli gwan o ran safonau moesol, mwy o ymosodedd gan blant, trais yn ddiweddarach mewn bywyd a iechyd meddwl gwael. Bu 12 o'r astudiaethau yn edrych ar y berthynas rhwng cosb gorfforol a phroblemau iechyd meddwl plant, megis pryder ac iselder, a bu 8 yn edrych ar ei pherthynas â phroblemau iechyd meddwl yn ddiweddarach mewn bywyd; yn ddieithriad, datgelodd y 20 astudiaeth fod cysylltiad rhwng cosb gorfforol a thebygolrwydd uwch problemau iechyd meddwl. Bu 13 astudiaeth yn ymchwilio i ymddygiad gwrthgymdeithasol: mewn 12 o'r 13 astudiaeth, cafwyd bod cysylltiad rhwng cosb gorfforol a thebygolrwydd uwch ymddygiad tramgwyddus a gwrthgymdeithasol. Cafwyd canlyniad oedd yr un mor unffurf (pedwar allan o bump) yn achos astudiaethau o'r berthynas rhwng profi cosb gorfforol yn blentyn ac ymddygiad troseddol yn ddiweddarach fel oedolyn.

Ymosodedd yn ystod plentyndod

Yn fwy na dim, mae'r dystiolaeth yn dangos bod cysylltiad rhwng cosb gorfforol a lefel uwch o ymosodedd ymhlith plant. Canfu pob un o'r 27 astudiaeth ar y pwnc a gynhwyswyd ym meta-ddadansoddiad Gershoff fod cysylltiad, ac mae hynny bellach wedi'i gadarnhau gan astudiaethau eraill niferus. Mae astudiaethau sy'n defnyddio patrwm dichonol yn gwrthod yn gynyddol y syniad bod plant sy'n fwy ymosodol yn profi mwy o gosb gorfforol – mae ymchwil yn awgrymu'n gyson mai profi cosb gorfforol sy'n uniongyrchol gyfrifol am achosi i lefelau ymosodedd plant godi.¹⁹ Gall y rhesymau gynnwys y ffaith bod ymosodedd yn ymateb adweithiol i brofi poen, bod plant yn efelychu ymddygiad eu rhieni, a bod plant yn dysgu bod trais yn ddull priodol o gael eich dymuniad. Disgrifiodd plant mewn astudiaeth yn Seland

¹⁷ E. T. Gershoff (2002), *Corporal punishment by parents and associated child behaviors and experiences: A meta-analytic and theoretical review*. Psychological Bulletin, 128(4), 539-579

¹⁸ E. T. Gershoff *Report on physical punishment in the United States: what research tells us about its effects on children* (2008) Center for Effective Discipline, Columbus, Ohio

¹⁹ Durrant, J. ac Ensom, R. (2012), "Physical punishment of children: lessons from 20 years of research", *Canadian Medical Association Journal*, 6 Chwefror 2012

Newydd eu teimladau ymosodol ar ôl cael eu smacio: “rydych chi eisiau talu’r pwyth a dial” (bachgen naw oed); “rydych chi’n brifo eich chwaer, er mwyn dial ar rywun arall” (bachgen 13 oed).²⁰ Dywedodd plant yn y DU, ar ôl iddyn nhw gael eu smacio, bod plant “yn ymddwyn yn ddrwg ac yn dechrau brifo pobl” (merch bump oed) ac “os ydyn nhw’n fach iawn, gallen nhw feddwl bod smacio’n iawn, a mynd a smacio rhywun arall” (merch saith oed).²¹

Ymhlith yr astudiaethau graddfa fawr ar y cysylltiad hwn mae astudiaeth o fwy na 1,000 o famau yn UDA, a gafodd eu cyfweld a’u harsylwi pan oedd eu plant yn un, tair a phedair oed, lle canfuwyd bod plant a gafodd gosb gorfforol yn un oed yn fwy tebygol o fod â phroblemau ymddygiad “mewnoli” ac “allanoli” yn dair a phedair oed²² ac astudiaeth o 2,461 o blant yn UDA, a ganfu fod plant oedd wedi cael eu “smacio” fwy na dwywaith yn ystod y mis blaenorol pan oedden nhw’n dair oed yn fwy tebygol o fod yn fwy ymosodol yn bump oed (rheolwyd yr astudiaeth o ran lefel ymosodedd y plant yn dair oed).²³

Mae rhai astudiaethau wedi canolbwyntio ar ymosodedd plant tuag at eu cyfoedion. Canfu astudiaeth yn UDA a archwiliodd sut roedd 106 o blant 3-6 oed yn ymddwyn mewn mannau chwarae fod plant yr oedd eu rhieni’n defnyddio llai o “ddisgyblaeth defnyddio pŵer” (gan gynnwys cosbi, bygwth a bychanu’r plant) yn fwy poblogaidd gyda’r plant eraill ac yn arddangos llai o ymddygiad oedd yn aflonyddu yn y man chwarae, megis dadlau ac ymosodedd.²⁴

Canfu astudiaeth arall yn yr UD o blant 5-7 a 9-10 oed a’u mamau fod plant yr oedd eu mamau’n defnyddio mwy o “ddisgyblaeth defnyddio pŵer” (megis cosb gorfforol a bygythiadau) yn llai poblogaidd gyda’u cyfoedion ac yn fwy tebygol o ddefnyddio “dulliau anghyfeillgar”, er enghraifft taro plentyn arall, i ddatrys anghytundeb gyda chyfoedion.²⁵ Mae’r effaith yn parhau i mewn i’r glasoed: canfu astudiaeth yn yr UD o 134 o rieni a phlant 10-15 oed fod y plant oedd yn cael eu cosbi’n gorfforol gan eu rhieni yn fwy tebygol o gymeradwyo defnyddio trais yn eu perthynas â chyfoedion, o fod wedi ymladd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o fwlio’u cyfoedion, ac o fod wedi profi trais gan eu cyfoedion yn ystod y tymor ysgol diwethaf.²⁶

²⁰ Dobbs, T. (2005) *Insights: children & young people speak out about family discipline*, Achub y Plant Seland Newydd

²¹ Willow, C. a Hyder, T. (1998) *It Hurts You Inside: young children talk about smacking*, Achub y Plant a’r Biwro Plant Cenedlaethol

²² Mulvaney, M. K. a Mebert, C.J. (2007) “Parental corporal punishment predicts behavior problems in early childhood”, *Journal of Family Psychology*, 21(3): 389-397

²³ Taylor, C. A. et al (2010) “Mothers’ Spanking of 3-Year-Old Children and Subsequent Risk of Children’s Aggressive Behavior”, *Pediatrics* 125(5): 1057-1065

²⁴ Hart, C.H. et al (1992) “Maternal and paternal disciplinary styles: Relations with preschoolers’ playground behavioral orientations and peer status”, *Child Development*, 63(4): 879-892

²⁵ Hart, C.H. et al (1990) “Children’s expectations of the outcomes of social strategies: Relations with sociometric status and maternal disciplinary styles”, *Child Development*, 61(1): 127-137

²⁶ Ohene, S. et al (2006) “Parental Expectations, Physical Punishment, and Violence Among Adolescents Who Score Positive on a Psychosocial Screening Test in Primary Care”, *Pediatrics* 117(2): 441-447

Mae plant sy'n profi cosb gorfforol gan eu rhieni'n fwy tebygol o ymddwyn yn ymosodol tuag at eu rhieni, fel y cadarnhawyd gan astudiaeth yn yr UD o 1,023 o gyplau oedd â phlentyn rhwng tair oed ac 17. Canfu fod 13% o'r mamau nad oeddent wedi defnyddio cosb gorfforol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cael eu taro gan eu plentyn yn ystod y flwyddyn honno, o'i gymharu â 30% o'r rhai oedd wedi defnyddio cosb gorfforol unwaith neu ddwywaith a 40% o'r rhai oedd wedi'i defnyddio deirgwaith neu fwy.²⁷

Trais yn ystod oedolaeth

Roedd cysylltiad rhwng cosb gorfforol a thrais tuag at bartner yn ystod oedolaeth ym mhob un o'r pum astudiaeth ar y pwnc a gynhwyswyd ym meta-ddadansoddiad Gershoff. Canfu pob un o'r pedair astudiaeth ar fathau eraill o ymosodedd yn ystod oedolaeth fod cysylltiad arwyddocaol rhwng cosb gorfforol a lefel uwch o ymosodedd yn ystod oedolaeth, a daeth pedair o'r pum astudiaeth ar gosb gorfforol ac ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol yn ystod oedolaeth o hyd i gysylltiad.

Canfu astudiaeth bwysig oedd yn cynnwys dynion ym Mrasil, Chile, Croasia, India, Mecsico a Rwanda fod y rhai oedd wedi profi trais, gan gynnwys cosb gorfforol, yn ystod plentyndod, yn fwy tebygol o gyflawni trais yn erbyn partner agos, meddu ar agweddau anghyfartal at y ddwy ryw, ymladd â phobl y tu allan i'r cartref, talu am ryw a phrofi hunan-barch isel ac iselder, ac yn llai tebygol o gyflawni dyletswyddau yn y cartref, cyfathrebu'n agored â'u partneriaid, mynychu ymweliadau cyn-geni pan fyddai eu partner yn feichiog a/neu gymryd absenoldeb tadolaeth.²⁸

Canfu astudiaeth o 717 o fechgyn yng Nghanada fod profiad o arferion llym rhieni (cael eu cosbi trwy gael eu taro, eu slapio, eu ceryddu drwy'r amser neu alw enwau arnynt a themlo eu bod yn cael eu gwrthod gan eu rhieni) yn cyfrannu'n uniongyrchol ac yn arwyddocaol at y bechgyn yn cyflawni "trais yn erbyn cariad" yn 16 ac 17 oed.²⁹ Canfu astudiaeth o 608 o ymatebwyr yn UDA a gafodd eu cyfweld yn 1982 yn 12-19 oed, ac eto 10 mlynedd yn ddiweddarach, fod y rhai oedd wedi profi "disgyblaeth gorfforol lem" yn fwy tebygol o fod yn dreisgar tuag at "bartner rhamantaidd" yn ystod oedolaeth.³⁰

Canfu astudiaeth a ddefnyddiodd ddata gan fwy na 4,400 o oedolion yn UDA, a gymerodd ran mewn arolwg cenedlaethol cynrychioladol o gyplau gwahanrywiol Americanaidd gyda a heb blant, fod yr ymatebwyr – yn ddynion a menywod – yn fwy tebygol o ymosod yn gorfforol ar eu partneriaid yn ystod oedolaeth ac o gymeradwyo trais yn y berthynas rhwng oedolion, megis

²⁷ Ulman, A. a Straus, M. A. (2003) "Violence by children against mothers in relation to violence between parents and corporal punishment by parents", *Journal of Comparative Family Studies* 34: 41-60

²⁸ Contreras, M. et al (2012), *Bridges to Adulthood: Understanding the Lifelong Influence of Men's Childhood Experiences of Violence, Analyzing Data from the International Men and Gender Equality Survey*, Washington DC: International Center for Research on Women (ICRW) a Rio de Janeiro: Instituto Promundo.

²⁹ ²⁹ Lavoie, F. et al (2002), "History of family dysfunction and perpetration of dating violence by adolescent boys: a longitudinal study", *Journal of Adolescent Health*, 30, tt. 375-383

³⁰ Swinford, S. P. et al (2000), "Harsh physical discipline in childhood and violence in later romantic involvements: The mediating role of problem behaviors", *Journal of Marriage and the Family*, 62, 508-519

slapio wyneb partner, po fwyaf aml yr oedden nhw wedi cael eu cosbi'n gorfforol yn eu harddegau.³¹ Canfu astudiaeth arall yn UDA, oedd yn cynnwys 188 o gyplau priod heb blant, fod unigolion a gosbwyd yn gorfforol yn ystod eu plentyndod yn rheoli mwy ar eu priod, yn llai abl i weld persbectif eu priod, ac yn fwy tebygol o ymddwyn yn gorfforol ac yn eiriol ymosodol tuag at eu priod. Mae'r awduron yn awgrymu mai'r rheswm am hyn yw bod cosb gorfforol yn dysgu strategaethau dinistriol i blant ar gyfer datrys problemau – ymosodedd geiriol a chorfforol – a hefyd yn eu rhwystro rhag dysgu sgiliau datrys problemau hanfodol – gweld persbectif pobl eraill, arddangos empathi a deall sut mae eu hymddygiad yn effeithio ar eraill.³²

Agweddau eraill ar rywioldeb sy'n golygu bod oedolion a phobl ifanc mewn perygl o ddiodef trais a chamdriniaeth

Y mae, wrth gwrs, gysylltiadau clir rhwng cael cosb gorfforol yn blentyn a theimlo cyffro rhywiol yn sgîl rhyw sy'n 'disgyblu' – yn wir, yn ôl yr ymchwiler, ymddengys bod hon yn gyfeiriadedd rywiol sy'n bendant yn cael ei chreu gan brofiadau plentyndod, yn hytrach na'i phennu gan y genynnau.³³ Dengys ymchwiler ddiweddar hefyd fod person yn fwy tebygol o gael rhyw o dan orfodaeth, po fwyaf o gosb gorfforol y mae ef/hi wedi'i phrofi, a hefyd o gyfranogi mewn rhyw peryglus a masocistaidd yn ystod oedolaeth.³⁴

Diwedd glo ac argymhellion

Mae'r newid sy'n angenrheidiol i ddileu amddiffyniad 'cosb resymol' yn glir ac yn gryno. Mae'n syml yn diddymu, yng nghyswllt ymosodiadau ar blant yng Nghymru, adran 58 o Ddeddf Plant 2004. Deddfwriaeth sifil yw hon, nid cyfiawnder troseddol. Ni fyddai'r newid yn cael effeithiau niweidiol ar elfennau eraill o'r Bil (i'r gwrthwyneb, byddai wrth gwrs yn cael effaith ffafriol iawn ar eu canlyniadau tymor hir) ac mae ymgynghorwyr cyfreithiol y Llywodraeth ei hun wedi cadarnhau bod rhoi amddiffyniad cyfartal i blant oddi mewn i alluoedd y Cynulliad.

- Rydym felly'n argymhell, fel mesur ataliol cychwynol yn erbyn cam-drin domestig, bod y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn cael ei newid er mwyn mynd ati i ddiddymu Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 yng Nghymru, ac yn sgîl hynny wahardd pob math o gosb gorfforol, gan gynnwys yn y cartref domestig.

³¹ Straus, M. A., a Yodanis, C. L. (1996), "Corporal punishment in adolescence and physical assaults on spouses later in life: What accounts for the link?" *Journal of Marriage and Family*, 58, 825–841

³² Cast, A. D. et al (2006), "Childhood physical punishment and problem solving in marriage", *Journal of Interpersonal Violence*, 21:244-261

³³ Gweler er enghraifft Ian Gibson, 1978, *The English Vice: Beating, Sex and Shame in Victorian Britain and After* Duckworth.

³⁴ Gweler er enghraifft, Douglas, Emily M a Murray A Straus. 2006. *Assault and injury of dating partners by university students in 19 countries and its relation to corporal punishment experienced as a child*. *European Journal of Criminology* 3:293-318. Rhagor yn <http://pubpages.unh.edu/~mas2/CP-Empirical.htm>

- Rydym yn argymhell hefyd bod Llywodraeth Cymru'n cysylltu'r diwygiad hwn i'r gyfraith, yr ydym wedi aros yn llawer rhy hir amdano, ag addysg rianta ac ysgol ehangach ynghylch disgyblaeth gadarnhaol a pherthnasoedd iach. Mae llawer o'r gwaith paratoi eisoes wedi'i wneud yng Nghymru, a byddai cyflwyno'r diwygiad cyfreithiol o gymorth i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, yn ogystal â rhoi eglurder i rieni. Mae hefyd yn rhan angenrheidiol o addysg ataliol lwyddiannus gyda phlant a phobl ifanc.

Sylwebaeth

Heb newid yn y gyfraith bydd unrhyw raglenni addysgol neu fentrau i hybu perthnasoedd iach, i leihau goddefiant i gamdriniaeth a thrais rhwng pobl yn cael eu tanseilio'n ddifrifol. Os derbynnir ein hargymhellion, bydd Llywodraeth Cymru'n gallu dibynnu ar gefnogaeth y sector gwirfoddol, gan gynnwys y prif sefydliadau plant, cymdeithasau proffesiynol a grwpiau ffydd, sy'n ymroddedig i gefnogi'r gweithredu â mesurau ymarferol.

Tra bod taro plant neu eu niweidio er mwyn rheoli eu hymddygiad neu eu cosbi yn parhau'n gyfreithlon, mae'r disgwrs cyhoeddus ar gam-drin domestig a thrais rhwng pobl yn dal yn ddryslyd ac yn anghyson. Mae'n hen bryd i Lywodraeth Cymru gymryd camau pendant, a thra bod yr anghysondeb cyfreithiol yn parhau, mae ystyr bod yn 'rhiant da' yn dal wedi'i barlysu, gyda'r holl sylw'n cael ei hoelio ar ysgyfarnog di-fudd smacio. Nid oes dim byd da am gosb gorfforol, ac mae llawer o bethau drwg yn ei chylch. Rhaid sicrhau nad yw trais rhwng pobl yn cael ei normaleiddio yn ystod plentyndod, a rhaid i'r llywodraeth roi arweiniad cryf trwy ddangos nad yw byth yn dderbyniol taro na niweidio person arall, beth bynnag yw eu hoed, eu rhyw na'u hamgylchiadau.

Ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo gyntaf i newid y gyfraith er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant, mae 27 o wledydd eraill (gan gynnwys 15 yn Ewrop) wedi cymryd y camau angenrheidiol i wneud hynny. Ar adeg ysgrifennu, mae 39 o wledydd bellach wedi gwahardd pob cosb gorfforol i blant, a disgwylir i fwy ddod â deddfwriaeth i rym yn fuan. Er na chymerodd yr un o'r gwledydd hyn y cam hwn mewn ymateb i alw gan y cyhoedd, unwaith mae'r gwaharddiad yn ei le, mae lefelau trais yn gostwng, ac ni welwyd yr un o'r canlyniadau negyddol y bu gwrthwynebwyr yn eu rhagweld. Mae unrhyw oedi pellach yng Nghymru'n rhoi plant agored i niwed mewn perygl, yn tanseilio mentrau eraill i leihau trais, bwlio a chamdriniaeth (ar ba sail bynnag), ac yn achosi ansicrwydd ynghylch enw da blaenorol Cymru ym maes hawliau plant.

'Sdim Curo Plant!

Medi 2014

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch yr ymateb hwn, cysylltwch â:

Sara Reid, Cydlynnydd, 'Sdim Curo Plant! E-bost: dimtarocymru@gmail.co.uk

Gwefan: www.childrenareunbeatablecymru.org.uk

Twitter: @CAUCymru (yn Saesneg) @SdimCuroPlant (yn Gymraeg)

ANECs 1

Sefydliadau sy'n ymdrin â Thrais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sydd wedi datgan eu cefnogaeth i 'Sdim Curo Plant! Cymru

Cymorth i Fenywod Aberconwy

Action for Children/Gweithredu dros Blant

AVA – Yn erbyn Trais a Chamdriniaeth

Cymorth i Fenywod Bangor a'r Cyffiniau

Barnardo's Cymru

BAWSO Cyf

Cymorth i Fenywod Blaenau Ffestiniog/Cymorth i Fenywod De Gwynedd

Cymorth i Fenywod Caerffili

Calan DVS

Uned Diogelwch Menywod Caerdydd

Cymorth i Fenywod Aberteifi

Cymorth i Fenywod Delyn

Eaves (UK)

EVAW – Dileu Trais yn Erbyn Menywod (Clymblaid y Deyrnas Unedig)

Cymorth i Fenywod Glyndŵr

Hafan Cymru

Cymorth i Fenywod Dyffryn Lliw

Cymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Prawf

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) Cymru

Canolfan Menywod Gogledd Cymru

Cymorth i Fenywod Port Talbot ac Afan

Refuge

Respect

Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf

Shelter

Cymorth i Fenywod Torfaen

Cymorth i Ddiodefwr / Victim Support

Cymorth i Fenywod Cymru (Aelod o Grŵp Strategaeth 'SCP! Cymru)

Ymddiriedolaeth Elusenol Dim Goddefiant / Zero Tolerance

Sylwer nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol. Mae llawer o'r cyrff eraill sy'n ein cefnogi hefyd yn ymwneud â'r materion hyn fel rhan o'u gwaith.

ANECS 2

Gwladwriaethau sydd â Gwaharddiad Llawn ar Gosb Gorfforol i Blant ym mhob lleoliad

Yn y 39 gwladwriaeth sy'n dilyn, mae plant yn cael eu hamddiffyn o dan y gyfraith rhag pob cosb gorfforol (nodir y diweddaraf yn gyntaf):

1. Bolifia (2014)
2. Brasil (2014)
3. Malta (2014)
4. Hondwras (2013)
5. Gweriniaeth Macedonia (2013)
6. De Swdan (2011)
7. Albania (2010)
8. Gweriniaeth Congo (2010)
9. Cenia (2010)
10. Twnisia (2010)
11. Gwlad Pŵyl (2010)
12. Liechtenstein (2008)
13. Lwcsembwrg (2008)
14. Gweriniaeth Moldofa (2008)
15. Costa Rica (2008)
16. Togo (2007)
17. Sbaen (2007)
18. Feneswela (2007)
19. Wrwgwai (2007)
20. Portwgal (2007)
21. Seland Newydd (2007)
22. Yr Iseldiroedd (2007)
23. Gwlad Groeg (2006)
24. Hwngari (2005)
25. Rwmania (2004)
26. Wcraïn (2004)
27. Gwlad yr Iâ (2003)
28. Twrcmenistan (2002)
29. Yr Almaen (2000)
30. Israel (2000)
31. Bwlgaria (2000)
32. Croasia (1999)
33. Latfia (1998)
34. Denmarc (1997)
35. Cyprus (1994)
36. Awstria (1989)
37. Norwy (1987)
38. Y Ffindir (1983)
39. Sweden (1979)